Y
Comisiwn
Etholiadol

Templed adroddiad yr archwilydd a nodiadau esboniadol ar gyfer pleidiau gwleidyddol sy'n gwario mwy na £250,000 mewn etholiad cyffredinol Senedd y DU ym Mhrydain Fawr

Ynglŷn â'r canllawiau hyn

Os ydych yn blaid wleidyddol gofrestredig ac yn gwario mwy na £250,000 yn ymgyrchu mewn etholiad cyffredinol Senedd y DU mae'n rhaid i chi gyflwyno adroddiad a baratowyd gan archwilydd cymwysedig annibynnol – fel y diffinnir yn adran 160 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 – pan fyddwch yn cyflwyno'ch ffurflen gwariant ymgyrchu.

Ar gyfer pwy y mae'r canllawiau hyn?

Mae'r ddogfen hon ar gyfer y blaid sy'n paratoi ar gyfer yr archwiliad ac ar gyfer yr archwilydd sy'n cwblhau'r adroddiad. Mae'n rhoi arweiniad i archwilwyr a gwybodaeth i'r blaid ar sut y dylai baratoi ar gyfer y broses a beth i'w ddisgwyl o'r adroddiad.

Mae'r adroddiad templed a ddarperir ar ddiwedd y ddogfen hon yn gosod y gofynion sylfaenol ar gyfer adroddiad yr archwilydd.

Nodiadau eglurhaol

Gwariant ymgyrchu

Gwariant ymgyrchu yw gwariant yr eir iddo gan neu ar ran y blaid ar weithgareddau penodol i hyrwyddo ei hun neu ei hymgeiswyr, neu i feirniadu pleidiau eraill, yn ystod y cyfnod a reoleiddir. Mae hyn yn cynnwys gwariant a godir gan neu ar ran unrhyw uned gyfrifo gofrestredig o'r blaid. Ymdrinnir ag unrhyw wariant a godwyd gan, neu ar ran y blaid, sy'n hyrwyddo'r blaid neu unrhyw un o'i hymgeiswyr yn y cyfnod a reoleiddir, oni bai bod y gwariant hwnnw wedi'i adrodd ar ffurflen ymgeisydd neu ffurflen deiseb adalw.

O dan adrannau 75-78 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, dim ond y swyddog cyfrifol sydd wedi'i gofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol, eu dirprwyon, a phobl sydd wedi'u hawdurdodi'n ysgrifenedig gan y swyddog cyfrifol all fynd i wariant ymgyrchu plaid a thalu amdano. Mae yna hefyd derfynau amser erbyn pryd y mae'n rhaid i'r swyddog cyfrifol dderbyn a thalu anfonebau ar gyfer gwariant ymgyrchu.

- Mae'n rhaid i bob anfoneb ddod i law o fewn 30 diwrnod i'r etholiad a' u talu o fewn 60 diwrnod i'r etholiad. Gelwir anfonebau a dderbynnir neu sy'n dal i fod heb eu talu ar ôl y terfyn amser hwn yn hawliadau heb eu talu a hawliadau sy'n destun

dadl, ac ni ddylid talu'r rhain oni bai bod y blaid wedi cael dyfarniad llys neu orchymyn i wneud hynny.

O dan adran 72 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, gelwir y gwariant hwn yn wariant ymgyrchu. Cyfeiriwn ato yn ein canllawiau fel gwariant ymgyrchu, fodd bynnag rydym yn defnyddio'r term cyfreithiol yn y ffurflen a'r adroddiad templed.

I gael gwybodaeth fanylach gweler yr adrannau gwariant ymgyrchu a rheoli gwariant ymgyrchu yn ein canllawiau gwariant i bleidiau.

Cofnod gwariant ymgyrchu

O dan adran 80 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, mae'n rhaid i swyddog cyfrifol y blaid baratoi ffurflen mewn perthynas â gwariant ymgyrchu a godwyd gan neu ar ran y blaid yn ystod y cyfnod a reoleiddir mewn unrhyw ran(nau) perthnasol o'r Deyrnas Unedig

Mae'r ffurflen yn rhoi tryloywder i bleidleiswyr ar yr arian sy'n cael ei wario gan bleidiau gwleidyddol.

Gwariant tybiannol

Pan fo'r blaid wedi defnyddio eitem neu wasanaeth a ddarparwyd neu a drosglwyddwyd iddo a bod amodau penodol yn cael eu bodloni, caiff gwerth masnachol llawn yr hyn a ddefnyddiwyd ei drin fel gwariant ymgyrchu. O dan adran 73 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, gelwir y gwariant hwn yn wariant ymgyrchu tybiannol, y cyfeiriwn ato yn ein canllawiau fel gwariant tybiannol.

Bodlonir yr amodau ar gyfer gwariant tybiannol pan ddarparwyd yr eitem neu wasanaeth naill ai'n rhad ac am ddim, neu ar ddisgownt anfasnachol o fwy na 10%, a lle mae'r gwahaniaeth mewn gwerth rhwng y gyfradd fasnachol a'r hyn a delir yn fwy na £200. Mae'n rhaid i'r blaid adrodd ar wariant tybiannol yn y ffurflen gwariant ymgyrchu ochr yn ochr â datganiad sy'n datgan bod y gwerth a adroddwyd yn rhesymol yn cynrychioli'r defnydd a wnaed o'r eitem neu wasanaeth yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

Dylai'r blaid wneud asesiad gonest a rhesymol o werth masnachol unrhyw wariant tybiannol y mae angen ei adrodd yn y ffurflen gwariant ymgyrchu. Gweler ein canllawiau i bleidiau ar wariant tybiannol yn etholiadau cyffredinol Senedd y DU am ragor o wybodaeth am brisio ac adrodd ar wariant tybiannol.

Unedau cyfrifyddu cofrestredig

Mae unedau cyfrifyddu cofrestredig yn ganghennau o blaid gofrestredig sy'n gyfrifol am eu materion ariannol eu hunain a chydymffurfio â rheolaethau cyfrifyddu a rhoddion a benthyciadau o dan Rannau 3, 4 a 4A o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Mae gan bob uned drysorydd cofrestredig ac ail swyddog sy'n gyfrifol am gydymffurfiaeth yr uned. Gweler Newid eich unedau cyfrifyddu am ragor o wybodaeth am sut mae'r rhain yn cael eu sefydlu. Mae cofrestru unedau cyfrifyddu'n ddewisol.

O dan adran 72 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, mae gwariant a godwyd gan neu ar ran uned gyfrifo gofrestredig plaid yn cael ei ystyried yn wariant a godwyd gan neu ar ran y blaid. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i wariant ymgyrchu gan unedau cyfrifyddu gael ei godi a'i dalu naill ai gan y swyddog cyfrifol, ei

ddirprwyon, neu'r rhai a awdurdodwyd yn ysgrifenedig gan y swyddog cyfrifol fel gyda phob gwariant ymgyrchu.

Y cyfnod a reoleiddir

Y cyfnod a reoleiddir yw'r amser pan fydd terfynau gwariant a chyfreithiau yn berthnasol cyn yr etholiad. Y cyfnod a reoleiddir ar gyfer Etholiadau Cyffredinol Senedd y DU yw 365 diwrnod sy'n dod i ben ar y diwrnod pleidleisio.

Dechreuodd y cyfnod a reoleiddir ar gyfer Etholiad Cyffredinol Senedd y DU 2024 ar 6 Gorffennaf 2023 a daeth i ben ar y diwrnod pleidleisio sef 4 Gorffennaf 2024.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein canllawiau gwariant pleidiau.

Swyddog cyfrifol

Trysorydd cofrestredig plaid sydd fel arfer yn gyfrifol am sicrhau bod y blaid yn dilyn y rheolau ar wariant ymgyrchu. Fodd bynnag, os yw plaid wedi cofrestru swyddog ymgyrchu, y person hwn sy'n gyfrifol am wariant ymgyrchu yn lle hynny. Yn y canllawiau ac yn y ddogfen hon, 'swyddog cyfrifol' yw'r enw a roddwn am y person sy'n gyfrifol am wariant ymgyrchu.

Diben adroddiad yr archwilydd

Diben adroddiad yr archwilydd yw rhoi barn ynghylch a yw'r ffurflen gwariant ymgyrchu yn gynrychiolaeth berthnasol gyflawn a chywir o'r gwariant ymgyrchu a godwyd gan neu ar ran y blaid ac a yw wedi'i pharatoi yn unol â Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Cyflwyniad a chynnwys yr adroddiad

Dylid atodi'r adroddiad archwilio i'r ffurflen gwariant ymgyrchu.

Dylai roi barn ynghylch a yw'r:

- ffurflen gwariant ymgyrchu yn gynrychiolaeth berthnasol gyflawn a chywir o'r gwariant a godwyd gan neu ar ran y blaid, gan gynnwys gwariant tybiannol [a gwariant gan unedau cyfrifyddu, os yw'n berthnasol]
- holl wariant ymgyrchu wedi'i godi a'i dalu yn unol â gofynion adrannau 75-78 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000
- gwariant ymgyrchu a adroddwyd wedi'i briodoli i bob rhan o Brydain Fawr, neu rannau ohoni, yn unol ag Atodlen 9 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000
- ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000

Yr hyn y dylai'r blaid ei ddisgwyl o'r archwiliad

Bydd angen i'r archwilydd wneud digon o waith i fod yn fodlon nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y ffurflen gwariant ymgyrchu. Dylai'r gwaith hwn gynnwys adolygiad o'r rheolaethau sydd ar waith i sicrhau bod yr holl wariant ymgyrchu wedi'i

gofnodi'n gywir a'i fod wedi'i gynnwys yn y ffurflen. Bydd yn cynnwys profion i sicrhau bod camddatganiadau'n cael eu nodi.

Yr hyn y mae gan yr archwilydd hawl iddo

O dan adran 44 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, mae gan yr archwilydd:

- hawl mynediad ar bob adeg resymol i lyfrau, dogfennau a chofnodion eraill y blaid
- hawl i ofyn i'r swyddog cyfrifol neu unrhyw swyddog arall y blaid, neu unrhyw gyn-swyddog cyfrifol neu swyddog y blaid, am unrhyw wybodaeth ac esboniadau y mae'n meddwl eu bod yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni ei ddyletswydd fel archwilydd.

Systemau allweddol

Bydd yr archwilydd yn archwilio'r systemau rheoli allweddol a ddefnyddir gan y blaid i sicrhau bod gwariant yn cael ei godi a'i dalu yn unol â Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys bod dirprwyo awdurdod ffurfiol wedi'i sefydlu, neu fod prawf yn bodoli bod gwariant wedi'i godi gan swyddog cyfrifol. Os na all yr archwilydd wirio bod swm sylweddol o wariant wedi'i godi neu ei dalu yn unol â Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, bydd yn rhoi barn archwilio cymwys.

Gwariant tybiannol

Dylai'r archwilydd fod yn ymwybodol o'r gofynion adrodd ar gyfer gwariant tybiannol, a bydd yn bodloni eu hunain bod y datganiad a lofnodwyd gan y swyddog cyfrifol yn adlewyrchu gofynion Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddant yn adolygu'r rheolaethau ar gyfer nodi, prisio ac adrodd ar eitemau o wariant tybiannol a, chyn belled ag y gellir yn rhesymol ddisgwyl, byddant yn bodloni eu hunain bod yr holl eitemau o wariant tybiannol wedi'u cynnwys yn y ffurflen ar werth teg ac yn cynrychioli'n rhesymol y defnydd a wnaed gan y blaid yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

Gweler ein canllawiau i bleidiau ar wariant tybiannol yn etholiadau cyffredinol Senedd y DU am ragor o wybodaeth. Er mwyn paratoi ar gyfer yr archwiliad, dylai'r blaid sicrhau bod yr holl gofnodion prisio a dyfynbrisiau a dderbyniwyd ar gyfer gwariant tybiannol ar gael i'r archwilydd. Dylid rhoi ystyriaeth debyg i gyflawnrwydd a gwerth costau gorbenion cynyddrannol.

Unedau cyfrifyddu

Fel rhan o archwilio systemau allweddol y blaid, dylai'r archwilydd sicrhau bod gan y blaid systemau ar waith i sicrhau bod gwariant a godir gan neu ar ran unedau cyfrifyddu yn cael ei adrodd ar y ffurflen a'i fod wedi'i awdurdodi yn unol â Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Priodoli gwariant ymgyrchu ledled Prydain Fawr

Mewn Etholiadau Cyffredinol Senedd y DU, mae'n rhaid i bleidiau sydd wedi'u cofrestru ym Mhrydain Fawr briodoli eu gwariant ymgyrchu ledled Prydain Fawr. Dylai'r archwilydd fod yn ymwybodol o'r gofyniad i briodoli gwariant ymgyrchu i'r rhan(nau) perthnasol o Brydain Fawr lle cafodd y gwariant effaith. Byddant yn adolygu rheolaethau'r blaid ar gyfer priodoli gwariant a, chyn belled ag y gellir yn rhesymol ddisgwyl, byddant yn bodloni eu

hunain bod y gwariant ymgyrchu a adroddwyd wedi'i briodoli i bob rhan o Brydain Fawr, neu rannau ohoni, yn unol â gofynion Atodlen 9 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Gweler ein canllawiau i bleidiau ar briodoli gwariant ledled Prydain Fawr mewn Etholiadau Cyffredinol Senedd y DU am ragor o wybodaeth.

Llythyr ymgysylltu

Dylai'r archwilydd ddarparu llythyr ymgysylltu sy'n nodi cwmpas a natur y gwaith a fydd yn cael ei wneud er mwyn llunio'i farn archwilio. Dylai'r blaid gyflwyno'r llythyr ymgysylltu hwn i'r Comisiwn pan fydd yn cyflwyno'r ffurflen ymgyrchu a'r adroddiad archwilio.

Amserlen ac archwiliad cyhoeddus o'r adroddiad

Mae'n rhaid i'r blaid gyflwyno'r ffurflen gwariant ymgyrchu wedi'i chwblhau ac adroddiad yr archwilydd i ni o fewn 6 mis i ddyddiad yr etholiad, sef 4 Ionawr 2025.

Bydd y ffurflen gwariant ymgyrchu ac adroddiad yr archwilydd ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio.

Sut y gallwn helpu

Os oes angen help arnoch, gallwch ein ffonio ar 0333 103 1928 neu gysylltu â ni drwy e-bost yn pef@electoralcommission.org.uk.

Y Comisiwn Etholiadol

Ffurflen RC3

Templed adroddiad yr archwilydd

[Enw'r swyddog cyfrifol], [Swyddog cyfrifol],

[Enw'r blaid gofrestredig] (y blaid)

Rydym wedi archwilio'r ffurflen gwariant ymgyrchu a atodir ar gyfer ymgyrch [etholiad perthnasol] 20[xx] y blaid, a baratowyd gan [enw'r swyddog cyfrifol], o dan adran 80 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Ein barn yw bod y ffurflen gwariant ymgyrchu a baratowyd gan [swyddog cyfrifol] [yn gynrychiolaeth gywir a chyflawn] [ddim yn gynrychiolaeth gywir a chyflawn] o wariant ymgyrchu'r blaid rhwng [cychwyn y cyfnod a reoleiddir] a [dyddiad yr etholiad].

Cyfrifoldebau priodol

Mae [swyddog cyfrifol] y blaid yn gyfrifol am:

- Cadw cofnodion cyfrifo priodol ar gyfer y blaid gofrestredig mewn perthynas ag ymgyrch [etholiad perthnasol].
- Sicrhau bod gwariant ymgyrchu'r blaid wedi'i awdurdodi yn unol â gofynion adran 75 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.
- Cyflawni'r ffurflen gwariant ymgyrchu a gafwyd gan neu ar ran y blaid rhwng [cychwyn y cyfnod a reoleiddir] a [dyddiad yr etholiad] mewn perthynas ag [etholiad perthnasol] 20[xx], yn unol ag adran 80 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon rhesymol wrth benderfynu ar wariant ymgyrchu'r blaid.
- Cadarnhau hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred bod y gwariant a gofnodwyd ar ffurflen y blaid yn gyflawn ac yn gywir.

Ein cyfrifoldeb ni, fel archwilydd cymwys, yw adrodd ar y ffurflen gwariant ymgyrchu o dan adran 81 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Yn benodol, ein nod yw darparu barn ar p'un a yw'r gwariant ymgyrchu yr adroddwyd arno ar y ffurflen yn gynrychiolaeth gywir a chyflawn o'r holl wariant perthnasol yr aed iddo, yn unol â'r gyfraith.

Rydym hefyd yn darparu ein barn ynghylch p'un a yw [swyddog cyfrifol] wedi cadw cofnodion cyfrifyddu priodol mewn perthynas â gwariant ymgyrchu'r blaid, os nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau rydym eu hangen ar gyfer ein harchwiliad, a manylion i ba raddau y gallai'r archwiliad ganfod anghysondebau, gan gynnwys twyll.

Sail ein barn

Nodir natur ein harchwiliad yn ein llythyr ymgysylltu dyddiedig [nodwch y dyddiad]. Rhoddwyd copi i'r Comisiwn Etholiadol. Rydym wedi adolygu'r sail y mae [swyddog cyfrifol] wedi paratoi'r ffurflen gwariant ymgyrchu. Roedd hyn yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r gwariant ymgyrchu yr aethpwyd iddo gan neu ar ran y blaid mewn perthynas ag [etholiad perthnasol] 20[xx]. Rydym hefyd wedi asesu'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan [swyddog cyfrifol] y blaid wrth baratoi'r ffurflen.

Rydym wedi cynllunio a chyflawni ein gweithdrefnau er mwyn cael yr holl wybodaeth ac esboniadau yr oeddem yn eu hystyried yn angenrheidiol i roi i ni dystiolaeth ddigonol er mwyn bod â sicrwydd rhesymol bod y ffurflen gwariant ymgyrchu yn gynrychiolaeth gyflawn o wariant ymgyrchu'r blaid, yn unol â'r gyfraith.

Barn

Yn ein barn ni:

- [Mae'r/Nid yw'r] ffurflen gwariant ymgyrchu yn gynrychiolaeth berthnasol gyflawn a chywir o'r gwariant ymgyrchu (gan gynnwys gwariant tybiannol [a gwariant gan unedau cyfrifyddu]) a godwyd gan, neu ar ran, y blaid rhwng [dechrau'r cyfnod a reoleiddir] a [dyddiad yr etholiad] mewn perthynas â'i ymgyrch [etholiad perthnasol] 20[xx], yn unol â'r gyfraith

- [Mae'r/Nid yw'r] holl wariant ymgyrchu wedi'i godi a'i dalu yn unol â gofynion adrannau 75-78 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000

- [Mae'r/Nid yw'r] gwariant ymgyrchu a adroddwyd wedi'i briodoli i bob rhan o Brydain Fawr, neu rannau ohoni, yn unol â gofynion Atodlen 9 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000

Nid ydym yn derbyn unrhyw ddyletswydd gofal na chyfrifoldeb i'r Comisiwn Etholiadol mewn perthynas â'n hadroddiad ac ni fyddwn yn derbyn unrhyw atebolrwydd na chyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti arall y mae'n cael ei ddangos iddo neu y gall ddod i'w dwylo.

[Llofnodwyd a'i ddyddio gan yr archwilydd]